
Datblygu Cerddorion Ifanc

Cavms
Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro



Cofrestrwch heddiw!

Am fod yn rhan o'r teulu CAVMS sy'n tyfu'n barhaus?

Am ddysgu offeryn, datblygu ystod o sgiliau newydd a gwneud ffrindiau am oes.

cavms.co.uk/cy/cofrestru

Mae llawenydd cerddoriaeth yn rhywbeth rydyn ni i gyd yn ei rannu – er bod llawer o oedolion yn difaru na wnaethon nhw erioed ddysgu chwarae offeryn felplentyn. CAVMS yw gwasanaeth addysgu cerddoriaeth annibynnol cyntaf Cymru ac mae'n gallu cynnig cyfle i'ch plentyn ddysgu chwarae offeryn o'u dewis.

Mae manteision enfawr pan fyddwch chi'n dechrau dysg'yn ifanc. Mae ein tîm o gerddorion profiadol ac ymroddedig yn ymweld ag ysgolion bob wythnos, gan ddod â'u brwdfrydedd a'u harbenigedd i helpu plant i gael gradd uchel o ragoriaeth gerddorol cyn gadael addysg amser llawn.

Rydym yn darparu gwersi ar dannau, chwythbrennau, pres, offerynnau taro, gitâr, piano, telyn a llais. Cysylltwch â ni i weld yn union beth sydd ar gael yn eich ysgol.







Mae'r buddion dilynol yn rhan o'n gwasanaeth:

- Cyswllt personol â'r athro.
- Adroddiadau ysgrifenedig llawn ar ddiwedd tymor yr hydref a'r haf.
- Mynediad ffôn i'r swyddfa i gael cyngor ar bob agwedd ar ddysgu ac offerynnau.
- Paratoi cynhwysfawr ar gyfer arholiadau gradd (dyfernir pwyntiau UCAS ar gyfer llwyddo mewn gradd uwch).



GWYBODAETH AR GYFER RHIENI

- Mae'r gost y tymor yn cael ei phennu yn ôl nifer a hyd y gwersi.
- Dim ond mewn rhai amgylchiadau y mae gwersi grŵp ar gael.
- Rhaid talu ar ddechrau'r tymor cyn gynted ag y derbynnir yr anfoneb.
- Rhaid talu'r swm llawn ar gyfer pob tymor, er y gallai plentyn ddymuno dod â gwersi i ben ar ôl ychydig wythnosau yn unig.
- Mae hysbysiad ysgrifenedig gan riant/gwarcheidwad yn ofynnol i ddod â gwersi i ben, fel arall bydd gwersi yn parhau o dymor i dymor yn awtomatig.
- Ni ellir ad-dalu gwersi a gollwyd heb unrhyw fai ar yr athro (e.e. gwyliau teulu, teithiau ysgol, gweithredu diwydiannol, absenoldeb plentyn ac ati), er y bydd staff yn gwneud pob ymdrech i wneud iawn am golli gwersi.





COST GWERSI

- **Gwersi grŵp** (pan ydynt ar gael) – y gost yw £6.50 yr wythnos e.e. 2 yn rhannu 20 munud neu 3 yn rhannu 30 munud.
- **Gwersi unigol** yn dechrau art £9.75 am 15 munud.

Mae hyn yn golygu y bydd tymor nodweddiadol o 12 wythnos yn costio:

- **Gwersi grŵp:** £78.00
- **Gwersi 15 munud unigol:** £117.00

SUT I DALU AM WERSI

Mae gwersi'n cychwyn ar ôl derbyn y ffurflen gofrestru ar-lein. Anfonir anfoneb unwaith y bydd nifer a hyd y gwersi wedi'u cadarnhau.

029 2089 1231

cavms.co.uk/cy

office@cavms.co.uk

Cavms

Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro



European String Teachers Association

ISM MUSICIANS

AIMS

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Dyluniwyd gan IconCreativeDesign.com